# Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: Josef Herman

**TAFLEN WYBODAETH A GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

## 1. Gwybodaeth am Josef Herman a'i gysylltiad â Chymru

**Pwy oedd Josef Herman?**

Roedd Josef Herman (1911-2000) yn arlunydd realaidd a oedd yn adnabyddus am ei frasluniau a'i baentiadau o weithwyr. Ganed ef yn Warszawa (Warsaw), Gwlad Pwyl yn 1911. Roedd yn un o nifer o arlunwyr Iddewig a ffodd o Ddwyrain Ewrop i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid. Yn 1938, daeth yn ffoadur a theithiodd i Brydain. Yn 1942, darganfu fod pob aelod o'i deulu wedi cael ei lofruddio yn yr Holocost.

**Beth yw ei gysylltiad â Chymru?**

Yn 1944, daeth Herman i Ystradgynlais yng Nghwm Tawe. Ymwelodd gyntaf pan oedd ar wyliau yno, ond arhosodd am un mlynedd ar ddeg. Dywedir iddo ddweud, “Arhosais yma am fy mod wedi dod o hyd i bopeth yr oedd arnaf ei angen. Cyrhaeddais yma'n ddieithryn, am bythefnos; trodd y pythefnos i fod yn 11 mlynedd.” Daeth yn rhan bwysig o'r gymuned leol, lle cafodd y llysenw hoffus 'Joe Bach’. Ysbrydolwyd Herman gan yr ymdeimlad cryf o gymuned yn y dref, ac ymddangosodd pobl Ystradgynlais, yn enwedig y glowyr, yn ei weithiau celf.

## 2. Enghreifftiau o waith Josef Herman



Miners Singing *gan Josef Herman (1911-2000).*

*©Ystad yr arlunydd/Amgueddfa Cymru.*



Two Miners *gan Josef Herman (1911-2000).*

*©Ystad yr arlunydd/Amgueddfa Cymru.*

## 3. Gweithgareddau

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Darllenwch yr wybodaeth am Josef Herman a'i gysylltiad â Chymru, a gwyliwch fideo a gynhyrchwyd gan TATE: Josef Herman, Sketches of Wales | Animating the Archives.

**Trawsgrifiad Hanes Llafar:**

Ceri Thomas – Ymddiriedolwr, Sefydliad Celf Josef Herman Cymru.
David Herman – mab.
Carole Hopkin – ffrind i'r teulu.
Betty Rae Watkins – Ymddiriedolwr, Sefydliad Celf Josef Herman Cymru.

***Ceri Thomas:*** *Ganed Josef Herman yn 1911 yn Warszawa, Gwlad Pwyl, i deulu Iddewig.*

***David Herman:*** *Gadawodd fy nhad Wlad Pwyl ddiwedd yr 1930au, yn 1938. Ffarweliodd ei fam ag yn yr orsaf reilffordd, a dywedodd, 'Paid byth â dod yn ôl', a oedd yn golygu bod y sefyllfa eisoes yn rhy beryglus yng Ngwlad Pwyl. Aeth trwy Wlad Belg a Ffrainc. Llwyddodd i gyrraedd Prydain yn 1940, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, felly caiff ei ystyried yn bennaf yn arlunydd o ffoadur Iddewig.*

***Ceri Thomas:*** *Yn drist iawn, yn 1942 mae'n cael y llythyr tyngedfennol hwnnw gan y Groes Goch sy'n dweud bod pob aelod o'i deulu wedi cael ei ddifodi yn y gwersylloedd crynhoi, felly mae'n dod yn arlunydd sydd wedi goroesi.*

***David Herman:*** *Yn 1944, yn haf 1944, daeth fy nhad i Gymru am y tro cyntaf. Gwnaeth argraff aruthrol arno. Roedd hon yn ennyd yr ysgrifennodd amdani droeon, ac yn ei atgofion* Related Twilights, *ysgrifennodd am yr ymweliad hwn â'r pentref glofaol, Ystradgynlais, yn Ne Cymru.*

*''Dan y bont, o gysgod oer, diferodd pwll o ddŵr a deneuai fwyfwy wrth iddo lifo'n ei flaen trwy'r cerrig sych a'r cerigos disglair. Yna'n annisgwyl, fel petai o unman, camodd grŵp o lowyr ar y bont. Am ennyd roedd eu pennau'n union yn erbyn corff llawn yr haul. Doedd y darlun ddim yn annhebyg i un o'r eiconau nodweddiadol hynny o'r saint â'u heurgylchau. Bu i'r ddelwedd hon o'r glowyr ar y bont yn erbyn cefndir disglair yr awyr fy syfrdanu am flynyddoedd oherwydd ei chymysgedd o dristwch a mawredd, a dyma fu ffynhonnell fy ngwaith.'*

*Dyma chi'r ddelwedd o'r eicon Bysantaidd, y cymysgedd o'r mawredd a'r tristwch, sy'n wirioneddol ganolog i'w gelfyddyd am weddill ei oes o'r eiliad honno ymlaen. Dyma i chi'r ymdeimlad o fawredd y gweithiwr, yn union fel mewn traddodiad gwleidyddol sosialaidd cyfan sy'n mynd yn ôl 100 mlynedd, ond mae hefyd yn ymdeimlad o dristwch y bywyd gwaith caled, di-baid hwn.*

***Ceri Thomas:*** *Roedd y motiff o'r tad yn grydd, yn ŵr a ddefnyddiai ei ddwylo yn y ffordd urddasol hon i wneud pethau, yn amlwg wedi gwneud argraff fawr ar y Josef ifanc ac, mewn gwirionedd, dyna oedd ei* Leitmotiv *am weddill ei oes, sef urddas gwaith llaw, yn enwedig yn achos y gwryw, ond nid yn ddieithriad felly, ond wedi iddo ddod i Gymru, mae hynny'n ei amlygu ei hun iddo, bron mewn modd hudolus, yng nglöwr De Cymru.*

*Rwy'n meddwl mai effaith Ystradgynlais ar Josef Herman oedd yr effaith fwyaf ar ei holl yrfa, a bu fyw nes yr oedd bron yn 90 oed.*

***David Herman:*** *Roedd wedi tyfu i fyny mewn cymuned glós iawn, cymuned dosbarth gweithiol a thlawd iawn yng Ngwlad Pwyl.*

***Carole Hopkin:*** *Ac roedd yna dlodi gwirioneddol yn Ystradgynlais ar y pryd. Wyddoch chi, yn y 30au, y 40au, ac ymlaen trwy'r 50au, roedd yna lawer o dlodi enbyd, ac mae fy mam yn ei gofio; plant yn dod i'r ysgol heb gael brecwast ac yn dod mewn dillad haf am nad oedd ganddyn nhw ddillad gaeaf, ac roedd yna lawer o amddifadedd, ond roedd pobl yn … cymuned oedd hi.*

***Betty Rae Watkins:*** *Roedd gan y bobl ymwybyddiaeth wleidyddol gref; roedd llawer o'r glowyr yn gomiwnyddion ac yn sosialwyr, ac yn aelodau o'r Blaid Lafur, ac felly roedd yna ogwydd gwleidyddol cryf iawn yn yr ardal, ac yntau'n rhannu hynny â phobl y pentref.*

***Ceri Thomas:*** *Yn ôl yr hanes, roedd ganddo lysenw cyn pen wythnos neu ddwy i gyrraedd yno. 'Joe Bach' oedd y llysenw hwnnw, ac er ei fod yn fyr ei gorff ac felly'r 'bach' yn disgrifio hynny, mae 'bach' hefyd yn golygu 'annwyl' wrth gwrs, sy'n hyfryd.*

***David Herman:*** *Roedd yn teimlo'n gartrefol ar unwaith, ac i ffoadur, mae teimlo'n gartrefol, dod o hyd i gartref newydd, yn beth enfawr yn ei fywyd.*

***Betty Rae Watkins:*** *Roedd am ymgolli yn y pentref o fore gwyn tan berfeddion y nos.*

***David Herman:*** *Byddai'n codi am bedwar y bore, bob bore, gan fraslunio ac wedyn peintio, a byddai'r glowyr yn cerdded heibio'i stiwdio ar eu ffordd i'r pyllau glo, ac yn gweld y golau ymlaen. Gwyddent ei fod yn arlunydd gweithgar, ac roedd ganddo berthynas ragorol â'r dynion hyn, rhywbeth a oedd yn brofiad emosiynol a theimladwy iawn iddo.*

***Ceri Thomas:*** *Roedd yna hoffter yma, wyddoch chi, pan ddaeth i Ystradgynlais: yn y bôn, tref, pentref gwaith corfforol oedd y lle, a'i seiliau, i bob pwrpas, ar lo, ond eto, roedd ganddynt ddiddordeb dirfawr mewn diwylliant.*

***Betty Rae Watkins:*** *Roedd gan lawer o bobl ddiddordeb ynddo gan y gallai ddod â rhywbeth iddynt am eu bod yn bobl greadigol a chanddynt yr ysfa hon i greu; felly roedd eu diddordeb mewn diwylliant wedi ffurfio cwlwm, a daeth yntau â'r dimensiwn Ewropeaidd iddynt hwythau.*

***Ceri Thomas:*** *Un o'r adeiladau allweddol yn Ystradgynlais yw'r adeilad yr wyf yn eistedd ynddo nawr, sef Neuadd Les y Glowyr, a dim ond deng mlwydd oed oedd bryd hynny. Cafodd ei adeiladu yn 1934. Roedd Neuaddau Lles y Glowyr i'w cael ledled Cymru, ac roeddent wedi'u codi o'r ceiniogau o gyflog y glowyr a roddid bob wythnos. Yn eu hanfod, roeddent yn ganolfannau cymunedol diwylliannol ar gyfer hunanwella, felly yng nghanol Ystradgynlais, roedd gennych y lle anhygoel hwn lle ceid trafodaethau cyfoes ar wleidyddiaeth ac athroniaeth, ac roedd y glowyr yn eu haddysgu eu hunain i ddarllen. Byddai llyfrgell eithriadol i'w chael yn yr adeiladau hyn. Roedd yna rinwedd uchelgeisiol yma, un a feddai yntau.*

***Carole Hopkin:*** *Pan fyddem yn sôn am Ystradgynlais yn y stiwdio, byddai ei lygaid bob amser yn llenwi; roedd yn dal yma mewn gwirionedd. Roedd yn cario Ystradgynlais gydag ef, er ei fod wedi gadael.*

***David Herman:*** *I arlunydd y mae ei waith yn fywyd iddo, mae dod o hyd i destun newydd a set newydd o liwiau a thechnegau sydd wir yn gweithio iddo, a dod o hyd i lais newydd, mae gwneud hynny, mae'r amser a'r lleoliad lle mae rhywun yn cyflawni hynny, bob amser yn hynod o bwysig, a pharhaodd yn bwysig iddo ar hyd ei oes.*

**b)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol â'r dosbarth cyfan:

- Pwy oedd Josef Herman? A ydych wedi clywed amdano ef a'i waith o'r blaen?
- Beth yw eich barn gyntaf am ei waith?

- Pa effaith a gafodd Ystradgynlais ar Josef Herman?
- Pam yr ydych yn meddwl bod y glowyr yn Ystradgynlais mor bwysig i Josef Herman?
- Sut y gall celf helpu i ddatblygu ymdeimlad o gymuned?
- Pam y mae mynegiant artistig, nad oedd yn cael ei ganiatáu'n aml o dan y drefn Natsïaidd, mor bwysig?

**GWEITHGAREDD 2**

**a)** Edrychwch ar ddau o baentiadau Josef Herman: 'Miners Singing' a 'Two Miners'.

**b)** Ystyriwch a thrafodwch y cwestiynau canlynol mewn grwpiau bach:

- Sut y byddech yn disgrifio **arddull** Josef Herman?

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

- Pwy yw **gwrthrychau** gwaith Herman a sut y maent yn cael eu portreadu?

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

**c)** Nodwch eich atebion a chyflwynwch y prif bwyntiau trafod i'r dosbarth cyfan. Defnyddiwch y **geiriau allweddol** canlynol yn eich disgrifiadau: cyfansoddiad, cyfrwng, lliw, siâp, ffurf, gwead a thôn.

**GWEITHGAREDD 3**

**a)** Nodwch unigolyn neu grŵp o bobl yn eich cymuned y gallech ei baentio neu dynnu llun ohono yn arddull Herman, e.e., perchennog siop, chwaraewr rygbi, ffermwr, tîm pêl-droed, aelod o dîm Achub Mynydd, neu nyrs.

**b)** Ystyriwch y canlynol:

- Pa rinweddau o eiddo'r unigolyn neu'r grŵp hwnnw yr hoffech eu cyfleu'n arbennig, e.e., ei gyfeillgarwch, ei agwedd weithgar, ei angerdd, neu ei sgìl?
- Pa liwiau, siapiau, gweadau, tonau, ac ati y byddech yn eu defnyddio i gyflawni hyn?

**c)** Crëwch luniad neu baentiad o'ch gwrthrych(au) dewisol, gan ddefnyddio enghreifftiau Josef Herman yn arddull i gyfeirio ato.

**GWEITHGAREDD 4**

Myfyriwch ar y gwaith celf a grëwyd trwy drafod y cwestiynau canlynol mewn parau neu grwpiau bach:

- Beth sydd wedi dylanwadu ar y dewis o wrthrych (unigolyn neu grŵp o unigolion) a'r dechneg (lliwiau, siapiau, gweadau a thonau)?
- Beth yr ydych yn dymuno ei gyfleu trwy gyfrwng eich gwaith celf?